

PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-2023

CYNNWYS:

1. Rhagair gan y Cadeirydd
2. Aelodaeth y Panel
3. Ein swyddogaeth
4. Adolygiad o'r Flwyddyn
5. Ein hamcanion ar gyfer 2023-2024
6. Casgliad

1. Rhagair gan y Cadeirydd

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r uchafbwyntiau allweddol a'r heriau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ffurfiwyd y Panel yn 2012 i herio, craffu a chefnogi gwaith y Comisiynydd Heddlu a Throseddu etholedig ar gyfer Dyfed Powys. Mae'r weledigaeth ar gyfer y Panel yn parhau, hynny yw sicrhau atebolrwydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae gwaith llywodraethu'r Panel yn aml yn ddi-glod, ond mae'n cael ei werthfawrogi. Bydd y wybodaeth yn helpu darllenwyr i ddeall cyd-destun a chyflawniadau gwaith y Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae cyflawniadau allweddol y flwyddyn yn cynnwys craffu ar y praesept plismona a gynigiwyd gan y Comisiynydd. Bu'r Panel yn craffu hefyd ar sut y mae'r Comisiynydd yn sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol, yn ogystal â pherfformiad y Comisiynydd yn erbyn Gorchymyn y Protocol Plismona.

Mae heriau wedi bod yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn etholiadau mis Mai 2022 bu newid sylweddol yn aelodaeth y Panel. Nid oedd y broses benodi heb ei hanawsterau ac roedd oedi o ran y Swyddfa Gartref yn cymeradwyo enwebeion yn golygu nad oedd y Panel yn gallu cynnal ei gyfarfod cyntaf tan 28 Hydref 2022 ac felly dim ond dau gyfarfod ffurfiol o'r Panel a gynhaliwyd. Fodd bynnag, mae'n braf iawn gweld cynrychiolaeth llawer uwch o fenywod ar y Panel ers ei ailffurfio, yn enwedig wrth ystyried y cwynion a gafodd lawer o gyhoeddusrwydd am gasineb at wragedd a rhywiaeth yn yr heddlu yn gyffredinol.

Nodir nodau'r Panel ar gyfer y flwyddyn nesaf 2023-2024 yn adran 5 yr adroddiad ac mae amserlen dros dro o gyfarfodydd ffurfiol wedi'i gosod.

Cefnogir y panel gan o ddydd i ddydd gan swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch iddynt a chydabod eu cyfraniad pwysig.

Ar nodyn personol, gan mai hwn fydd fy Adroddiad Blynyddol cyntaf fel Cadeirydd Panel yr Heddlu a Throseddu hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i fy rhagflaenydd, cyn Gynghorydd Sir Ceredigion, Alun Lloyd Jones, am ei arweinyddiaeth yn y gorffennol. Gosododd Alun safonau uchel i'r Panel a goruchwyliodd gynnydd sylweddol yn y gwaith craffu a wnaed gan y Panel. **Diolch Alun**, ac edrychaf ymlaen at barhau â hyn yn y dyfodol.



Yr Athro Ian Roffe (Cadeirydd y Panel)

2. Aelodaeth y Panel

Mae gan y Panel gyfanswm o 14 aelod. O blith y rhain mae 14 yn Gynghorwyr Sir (3 o bob Sir yn ardal yr heddlu) ac mae 2 yn aelodau annibynnol

cyfetholedig, a ddewiswyd yn dilyn ymarfer recriwtio cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am Aelodau'r Panel ar gyfer 2022-2023 ar gael yn Atodiad 2. Mae'r gynrychiolaeth yn darparu ystod o wahanol safbwyntiau o'n cymunedau sy'n bwysig wrth gydnabod ffactorau perthnasol sy'n effeithio ar waith y Comisiynydd a Heddlu Dyfed-Powys.

3. Ein swyddogaeth:

Mae swyddogaethau Panel yr Heddlu a Throseddau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth ac maent yn cynnwys;

1. Adolygu Cynllun Heddlu a Throseddau'r Comisiynydd.
2. Adolygu cyllideb ddrafft flynyddol y Comisiynydd, a'r pŵer i roi feto ar lefel y praesept.
3. Ymdrin â chwynion penodol ynghylch y Comisiynydd neu ei ddirprwy.
4. Craffu ar benderfyniadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd.
5. Adolygu penodiad neu ddiswyddiad y Prif Gwnstabl a phenodiad rhai o staff uwch Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, sef unrhyw Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau, a Phennaeth Staff y Comisiynydd a'r Prif Swyddog Ariannol.
6. Cynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau statudol.
7. Rhoi adroddiadau neu argymhellion i'r Comisiynydd.
8. Adolygu ymddygiad y Comisiynydd.

Mae'r Panel wedi cynnal hunanasesiad o ran sut y mae wedi cyflawni'r swyddogaethau hyn yn ystod y flwyddyn. Gellir gweld hyn yn Atodiad 1 isod.

Dyma swyddogaethau statudol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

1. Pennu blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys.
2. Cyhoeddi cynllun Heddlu a Throseddau.
3. Ymgysylltu â chymunedau a chynrychioli llais y cyhoedd ynghylch materion plismona.

4. Gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol.
5. Cefnogi dioddefwyr a dwyn pobl gerbron y Llysoedd.
6. Comisiynu gwasanaethau i wneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi pobl sy'n agored i niwed.
7. Penodi'r Prif Gwnstabl a'i ddiswyddo os bydd angen.
8. Ymdrin â chwynion a materion disgyblu yn ymwneud â'r Prif Gwnstabl.
9. Sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol.
10. Pennu cyllideb flynyddol yr Heddlu a lefel y praesept.

Nid oes gan y Panel, na Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, unrhyw rôl o ran rheoli gwaith plismona gweithredol Heddlu Dyfed-Powys. Cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl yw Plismona Gweithredol.

4. Adolygiad o'r Flwyddyn:

Cynhaliodd y Panel 2 gyfarfod ffurfiol yn ystod y flwyddyn ym mis Hydref 2022 a mis Ionawr 2023. Cyfarfu is-grwpiau o aelodau'r panel yn rheolaidd hefyd o fis Hydref 2022 hyd ddiwedd mis Mawrth 2023 i ymgymryd â darnau gwaith manylach.

Mae rhagor o wybodaeth am gyfarfodydd ffurfiol y Panel ar gael ar wefan y Panel www.panelheddluathroseddudp.cymru/cartref drwy glicio ar y tab 'Cyfarfodydd', y botwm 'Dewiswch' ac yna dewis blwyddyn y cyfarfod rydych am chwilio amdano.

Crynodeb o'r Cyfarfodydd

Hydref 2022

Hwn oedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Panel a gafodd ei oedi.

Bu'r cyfarfod yn ystyried adroddiad blynyddol y Comisiynydd, y penderfyniadau a wnaeth ers y cyfarfod diwethaf a'iberfformiad yn erbyn gofynion y Gorchymyn Protocol Plismona.

Roedd ffocws penodol hefyd ar drais yn erbyn menywod.

Ionawr 2023

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar bennu praesept yr heddlu am 2023-2024 a rheolaeth ariannol y Comisiynydd o'r gyllideb. Fodd bynnag, craffodd y Panel hefyd ar benderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd ers cyfarfod diwethaf y Panel a'i berfformiad yn erbyn gofynion Gorchymyn y Protocol Plismona am yr un cyfnod.

Cwynion yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Rhaid i Banel yr Heddlu a Throsedd gofnodi unrhyw gŵyn yn erbyn y Comisiynydd sy'n dod i law. Fodd bynnag, dim ond pwerau cyfyngedig iawn sydd gan y Panel i ddelio â'r cwynion hyn ac ni all 'ymchwilio' i unrhyw gŵyn a waned. Mae'n ofynnol i'r Panel gyfeirio unrhyw gŵyn ddifrifol (h.y. cwyn am gamymddwyn troseddol) i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ac nid oes ganddo'r pŵer i orfodi'r Comisiynydd i gymryd unrhyw gamau adferol mewn perthynas â chwyn. Yr hyn y gall y Panel ei wneud yw ceisio datrys y gŵyn yn anffurfiol.

Cafodd y rhain eu hystyried yn unol â phrotocol cwynion y Panel, a phenderfynwyd peidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r naill neu'r llall ohonynt gan nad oeddent yn addas i'w datrys yn anffurfiol gan y Panel ac nid oedd unrhyw ganlyniad ystyrlon yn debygol.

Blaenoriaethau'r Panel ar gyfer 2022-2023

Yn ei adroddiad blynyddol diwethaf, nododd y Panel 4 blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn ganlynol, pob un ohonynt yn ymwneud â swyddogaeth statudol y Panel. Mae'r Panel wedi gallu cwblhau 3 allan o'r 4 darn o waith craffu yr oedd wedi ymrwymo iddynt ac rwy'n ddiolchgar i fy nghydweithwyr am y gwaith sylweddol a wnaethant i wneud hyn yn bosibl.

Felly, ein blaenoriaethau ar gyfer 2023-2022 oedd:

BLAENORIAETH 1	Y DIBEN	BETH WNAETHOM NI?	CANLYNIAD
Craffu ar Braesept yr Heddlu	Sicrhau bod arian Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei reoli'n briodol a bod Praesept yr Heddlu'n rhoi gwerth am arian i drigolion Dyfed-Powys	<p>Adolygu'r cyfrifon diwedd blwyddyn.</p> <p>Holi'r Comisiynydd yn gyhoeddus am y cyfrifon hynny.</p> <p>Cafwyd sesiwn briffio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'i Brif Swyddog Ariannol am sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed-Powys a'r galw sydd arno.</p> <p>Cafwyd gwybodaeth am y gwasanaethau nad ydynt yn rhai'r heddlu ac sy'n cael eu caffael gan y Comisiynydd.</p> <p>Cafwyd gwybodaeth gan y Prif Gwnstabl am y pwysau cyllidebol yr oedd yn ei wynebu.</p> <p>Cynhaliwyd gwrandawriad i ystyried y praesept arfaethedig</p>	Cymeradwyodd y Panel gynnydd praesept arfaethedig y Comisiynydd o 7.75% yn y praesept. Roedd y Panel yn fodlon bod y cynnydd hwn yn deg ac yn briodol gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol

BLAENORIAETH 2	Y DIBEN	BETH WNAETHOM NI?	CANLYNIAD
----------------	---------	-------------------	-----------

Sut y mae'r Comisiynydd yn rheoli ystâd yr Heddlu yng ngoleuni'r pwysau ariannol ar y gyllideb gyfalaf	Deall sut y mae ystâd yr heddlu yn cael ei rheoli a'i heffaith ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr heddlu Archwilio a yw'r rhaglen gyfalaf yn cynrychioli'r gwerth gorau	Oherwydd yr oedi sylweddol gan y Swyddfa Gartref yn penodi aelodau i'r Panel yn dilyn etholiadau Mai 2022 nid oedd yn bosibl symud y flaenoriaeth hon yn ei blaen.	Gohiriwyd y flaenoriaeth hon tan 2023-2024, pan fydd yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses gosod praesept gyffredinol.
--	--	--	---

BLAENORIAETH 3	Y DIBEN	BETH WNAETHOM NI?	CANLYNIAD
Parhau i graffu ar y modd y mae'r Comisiynydd yn sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol.	Y Comisiynydd i sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol mewn ffordd sy'n drylwyr, yn effeithiol ac yn deg.	Monitro perfformiad y Comisiynydd drwy fynychu cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd Plismona Adolygu a chraffu ar Agendâu ac Adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Plismona Herio'r Comisiynydd mewn perthynas â materion penodol a gododd yn ystod y flwyddyn.	Roedd y Panel yn fodlon bod y Comisiynydd yn sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol mewn ffordd gadarn ond teg. Gwnaeth y Panel hefyd 5 argymhelliad gyda'r nod o wella hygyrchedd y cyhoedd i ddeall pam a sut y mae'r Comisiynydd yn sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol.

BLAENORIAETH 4	Y DIBEN	BETH WNAETHOM NI?	CANLYNIADAU
----------------	---------	-------------------	-------------

<p>Craffu ar berfformiad y Comisiynydd yn erbyn y Gorchymyn Protocol Plismona</p>	<p>Sicrhau bod y Comisiynydd yn cyflawni'r swyddogaethau statudol a ragnodir yn y Gorchymyn i'r safon uchaf bosibl</p>	<p>Monitro perfformiad y Comisiynydd yn erbyn y gorchymyn bob chwarter</p> <p>Herio'r Comisiynydd mewn perthynas ag unrhyw faterion perfformiad penodol a gododd yn ystod y flwyddyn.</p>	<p>Roedd y Panel yn fodlon bod y Comisiynydd wedi cyflawni ei swyddogaethau i safon uchel.</p> <p>Gwnaeth y Panel 5 argymhelliad ynghylch craffu pellach yn y maes hwn</p>
---	--	---	--

5. EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER 2023/2024

Mae'r Panel wedi penderfynu canolbwyntio ei waith ar ddwy flaenoriaeth ehangach yn 2023 – 2024 a bydd pob un ohonynt yn cynnwys sawl thema

Felly, ein blaenoriaethau ar gyfer 2023-2022 fydd:

BLAENORIAETH 1	Y DIBEN	BETH FYDDWN YN EI WNEUD	CANLYNIAD BWRIADEDIG
<p>Craffu ar Braesept yr Heddlu</p> <p>Y themâu a fydd yn cael ystyriaeth benodol fydd</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Ystadau 2. Gwasanaethau a Gomisiynir 3. Arbedion effeithlonrwydd 	<p>Sicrhau bod arian Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei reoli'n briodol a bod Praesept yr Heddlu'n rhoi gwerth am arian i drigolion Dyfed-Powys</p>	<p>Adolygu cyfrifon diwedd y flwyddyn, Strategaeth Ystadau a dogfennau perthnasol eraill</p> <p>Holi'r Comisiynydd yn gyhoeddus am y materion hyn a gofyn am wybodaeth berthnasol ganddo.</p> <p>Cael sesiwn briffio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'i Brif Swyddog Ariannol am sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed-Powys a'r galw sydd arno.</p> <p>Derbyn gwybodaeth am y gwasanaethau nad ydynt yn rhai'r heddlu a gaffaelir gan y Comisiynydd.</p> <p>Derbyn gwybodaeth gan y Prif Gwnstabl am bwysau cyllidebol mewn Seminar Cyllid.</p> <p>Cynnal gwrandawriad i ystyried y praesept arfaethedig</p>	<p>Bod lefel y praesept a osodir ar gyfer 2024-2025 yn briodol o ystyried yr holl amgylchiadau.</p> <p>Dyddiad Targed – Chwefror 2024</p>

BLAENORIAETH 2	YR AMCANION	BETH FYDDWN YN EI WNEUD	CANLYNIAD BWRIADEDIG
<p>Craffu ar sut y mae'r Comisiynydd yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i gynnal Heddlu effeithlon ac effeithiol (Paragraff 17(g) o'r Gorchymyn Protocol Plismona 2011)</p> <p>Y themâu a fydd yn cael ystyriaeth benodol fydd</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Effaith adnoddau a llesiant staff ar berfformiad 2. Effaith ymgysylltu â'r cyhoedd ar hygyrchedd a pherfformiad 3. Pa mor effeithiol y mae blaenoriaeth Cynllun yr Heddlu a Throsedd i atal niwed wedi'i rhoi ar waith a'r hyn sydd wedi'i gyflawni. 	<p>Cael dealltwriaeth o sut y mae'r Comisiynydd wedi gallu dylanwadu ar ba mor effeithlon ac effeithiol y mae Dyfed-Powys, a'r hyn y gallai ei wneud i wella pethau ymhellach.</p>	<p>Gofyn i'r Comisiynydd ddarparu gwybodaeth benodol i'r Panel ynghylch y mater hwn.</p> <p>Gwahodd rhanddeiliaid allweddol eraill i roi eu barn i'r Panel.</p> <p>Chwilio am enghreifftiau o arfer gorau o fannau eraill.</p>	<p>Gallu penderfynu a yw'r Comisiynydd wedi bodloni'r gofyniad i gynnal heddlu effeithlon ac effeithiol</p> <p>Dyddiad Targed – Mehefin 2024</p>

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, bydd y Panel yn parhau i wneud y canlynol.

- Craffu ar yr holl benderfyniadau allweddol a wneir gan y Comisiynydd gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â gwasanaethau a gomisiynir.

- Monitro sut y mae'r Comisiynydd yn sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol.
- Monitro perfformiad y Comisiynydd yn erbyn y Gorchymyn Protocol Plismona

6. CASGLIAD

Fel y dywedais yn fy nghyflwyniad, dyma fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd Panel yr Heddlu a Throseddu, ar ôl gwasanaethu fel Is-gadeirydd yn flaenorol.

Mae plismona yn gyffredinol yn wynebu llawer o heriau, yn ariannol ac yn foesegol a byddai'n naïf meddwl nad yw hyn yn effeithio ar Dyfed-Powys. Rwyf i a fy nghyd-aelodau ar y Panel wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi'r Comisiynydd i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Fodd bynnag, mae rôl y Comisiynydd yn ehangach na phlismona yn unig. Mae'n cynnwys materion fel cymorth i ddioddefwyr, er enghraifft, ac elfennau ehangach o'r system cyfiawnder troseddol. Felly, rwy'n croesawu penderfyniad y Panel i ddechrau canolbwyntio ar rai o'r meysydd hyn hefyd.

Yr Athro Ian Roffe (Cadeirydd)

ATODIAD 1 – PERFFORMIAD Y PANEL

Mae'r Panel wedi neilltuo sgôr RAG (Coch /Oren /Gwyrdd) i bob un o'i swyddogaethau. Lle nad oedd yn ofynnol i'r Panel gyflawni swyddogaeth benodol yn ystod y flwyddyn nid yw wedi cael sgôr RAG.

Mae'r graddfeydd yn cael eu cymhwyso fel a ganlyn.

COCH - Lle bu'n ofynnol i'r Panel gyflawni swyddogaeth ond nad yw wedi gwneud hynny.

OREN - Lle bu'n ofynnol i'r Panel gyflawni swyddogaeth a'i fod wrthi'n gwneud hynny.

GWYRDD - Lle bu'n ofynnol i'r Panel gyflawni swyddogaeth ac mae wedi gwneud hynny.

SWYDDOGAETH	SGÔR	SYLW
Ystyried y praesept	GWYRDD	Trafododd y Panel y praesept ym mis Ionawr 2023 a chymeradwyodd y cynnydd a gynigiwyd gan y Comisiynydd
Adolygu penodiadau penodol gan y Comisiynydd	Ddim yn berthnasol	Ni fu angen i'r Panel gyflawni'r swyddogaeth hon yn ystod y flwyddyn.
Ystyried diswyddo'r Prif Gwnstabl	Ddim yn berthnasol	Ni fu angen i'r Panel gyflawni'r swyddogaeth hon yn ystod y flwyddyn.
Adolygu Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd	Ddim yn berthnasol	Ni fu angen i'r Panel gyflawni'r swyddogaeth hon yn ystod y flwyddyn.
Adolygiad o Adroddiad Blynyddol y Cyngor	GWYRDD	Gwnaed hyn ym mis Hydref 2022
Derbyn adroddiadau a gwybodaeth gan y Comisiynydd	GWYRDD	Derbyniwyd adroddiadau yng nghyfarfodydd Panel Hydref 2022 ac Ionawr 2023

Presenoldeb y Comisiynydd yng nghyfarfodydd y Panel	Gwyrdd	Mynychodd y Comisiynydd y ddau gyfarfod Panel a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.
Penodi Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dros Dro	Ddim yn berthnasol	Ni fu angen i'r Panel gyflawni'r swyddogaeth hon yn ystod y flwyddyn.
Ymdrin â chwynion yn erbyn y Comisiynydd	Gwyrdd	Bu'r Panel yn ystyried a dod i gasgliad ynghylch 2 gŵyn yn erbyn y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn.
Cefnogi'r Comisiynydd i arfer ei swyddogaethau yn effeithiol	Gwyrdd	Mae'r Panel wedi gwneud 2 ddarn o waith craffu yn ystod y flwyddyn ac wedi cyflwyno argymhellion i'r Comisiynydd ynghylch meysydd gwella.

ATODIAD 2 - AELODAU PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS AR GYFER 2022 I 2023

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cynghorydd Dot Jones

Cynghorydd Karen Davies

Cynghorydd Ken Howell

Cyngor Sir Ceredigion

Cynghorydd Elizabeth Evans

Cynghorydd Wyn Thomas

Cynghorydd Keith Evans (Is-gadeirydd)

Cyngor Sir Penfro

Cynghorydd Brian Hall

Cynghorydd Jonathan Grimes

Cynghorydd Dr Simon Hancock

Cyngor Sir Powys

Cynghorydd Liz Rijnenberg

Cynghorydd Les George

Cynghorydd William Powell

Aelodau Cyfetholedig Annibynnol

Mrs. Helen Thomas

Yr Athro Ian Roffe (Cadeirydd)